**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
—
**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Tracey Burke
Cyfarwyddwr Cyffredinol – Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

6 Ebrill 2023

## Maes Awyr Caerdydd

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 21 Mawrth 2023, a oedd yn rhoi diweddariad chwe mis am Faes Awyr Caerdydd (y Maes Awyr), yn ogystal â gwaith dilynol ynghylch Wizz Air yn gadael y maes awyr. Trafododd y Pwyllgor y llythyr hwn yn ei gyfarfod ar 30 Mawrth 2023 a byddai'r Aelodau'n croesawu cael eglurhad neu wybodaeth ychwanegol ynghylch y materion a ganlyn.

### Adroddiadau Chwarterol

Roedd eich llythyr yn nodi gwybodaeth am fonitro ac asesu perfformiad y Maes Awyr yn erbyn Cynllun Achub ac Ailstrwythuro Llywodraeth Cymru. Gwnaethom nodi nad oedd yn dweud p'un a gyflawnwyd y targed i'r Maes Awyr ymrwymo i ddod yn garbon niwtral erbyn 31 Mawrth 2023 sydd wedi'i gynnwys yn y metrigau yn eich llythyr dyddiedig 21 Medi 2022. Gwnaethom hefyd nodi nad oedd yr adroddiad cynnydd yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad y Maes Awyr yn erbyn y metrig ychwanegol y gwnaethoch ei rannu'n gyfrinachol â'r Pwyllgor, sef diweddariad ysgrifenedig y dywedasoch y byddai'n cael ei ddarparu fel rhan o'r adrodd ar gynnydd. Byddem yn croesawu diweddariad am berfformiad y Maes Awyr yn erbyn y metrigau hyn.

### WGC Holdco

Gwnaethom nodi eich llythyr dyddiedig 21 Medi 2022 a ddywedodd y bydd y broses o recriwtio dau Gyfarwyddwr Anweithredol (NEDs) newydd ar Fwrdd Cyfarwyddwyr WGC Holdco, yn lle'r ddau Uwch Was Sifil, yn dechrau'n fuan ac roeddech yn gobeithio y bydd y broses yn dod i ben yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Fodd bynnag, yn eich diweddariad, rydych yn pennu amserlen wahanol. Rydych yn dweud y byddwch yn cychwyn ar y broses penodiadau cyhoeddus cyn bo hir ac yn gobeithio ei

chwblhau erbyn toriad yr haf. Byddem yn croesawu eglurhad pam bod yr amserlen wedi'i gwthio'n ôl a'r oedi o ran recriwtio.

Gwnaethoch hefyd ddweud wrthym, ym mis Medi, fod Llywodraeth Cymru yn cymryd cyngor mewnol ar yr egwyddorion a'r rheolau ynghylch penodi Cadeirydd i is-gwmni sy'n eiddo llwyr a byddai hyn yn llywio'r penderfyniad terfynol ynghylch Cadeirydd WGC Holdco. Gwnaethoch gytuno i ysgrifennu atom unwaith y bydd gennych ddarlun cliriach.

Yn eich diweddariad, rydych yn dweud eich bod yn disgwyl i benderfyniad terfynol ar benodi Cadeirydd newydd WGC Holdco gael ei wneud cyn toriad yr haf. Fodd bynnag, nid ydych yn cyfeirio at y cyngor. Byddem yn croesawu gwybodaeth am y cyngor a chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer penodi Cadeirydd WGC Holdco.

**Adolygiadau**

Yn olaf, mae eich llythyr yn nodi bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Maes Awyr i ddeall effaith Wizz Air yn gadael ar yr amserlen ar gyfer hunangynaladwyedd. Rydych hefyd yn nodi bod Gweinidogion wedi gofyn i swyddogion Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Maes Awyr i ystyried mesurau lliniaru posibl o ystyried effaith chwyddiant ar y gost o gynnal cydymffurfiaeth â rheoleidd-dra a'r pwysau canlyniadol ar y gyllideb buddsoddi cyfalaf. Byddem yn croesawu gwybodaeth am yr amserlenni ar gyfer yr adolygiadau hyn a phryd y gallech rannu'r canlyniadau â'r Pwyllgor, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau i'r targedau a'r terfynau amser cysylltiedig o dan y Cynllun Achub ac Ailstrwythuro, yn enwedig yr amserlen ar gyfer dychwelyd y Maes Awyr i hyfywedd ariannol os yw'n debygol o gymryd mwy na chwe blynedd (erbyn 2025-26).

Byddem yn croesawu eich ymateb erbyn 5 Mai 2023.

Yn gywir

Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.